TREFNIADAETH YSGOLION CYNRADD

Fforwm Llywodraethwyr Llŷn **www.ysgol.co.uk**

OES ANGEN NEWID?

Mae'n debyg i chi glywed sôn am y newidiadau posib i ysgolion Gwynedd dros y misoedd olaf – beth mae hyn yn ei olygu go iawn?

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yng nghanol ymgynghori am newid trefn ysgolion. Maent yn benderfynol o gael cynllun yn ei le cyn haf 2007 i gychwyn y newidiadau o 2008 ymlaen.

Bydd taflen wybodaeth liwgar, ddrud yn cael ei hanfon atoch yn fuan ar ol y Nadolig yn gosod dadl y Cyngor dros newidiadau ac yn cynnig nifer o opsiynau (gweler y tabl Opsiynau). Bydd cyfle i chi wedyn gyfarfod Swyddogion Y Cyngor mewn cyfarfod agored yn Neuadd Botwnnog mis Chwefror.
Mae'r Cyngor yn cynnig tri prif reswm dros yr angen i newid sef:

- Nifer y disgyblion yn disgyn
- Dim digon o gyfleoedd cwricwlaidd i blant
- Prinder Penaethiaid

Gobaith y Cyngor yw cael cyd-syniad fel rhieni a llywodraethwyr pob ysgol ar fodel fydd yn golygu clystyru ag ysgol arall, ffedraleiddio neu greu ysgol ardal. Mae awgrymiadau'r Sir ar pa ysgolion fydd yn ymuno ar gael gan eich pennaeth.

Mae nifer o ddalgylchoedd yn y sir yn barod wedi cytuno i newid am nifer o resymau ac mae'r Fforwm yn falch o hyn ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt.

Dadl Y Fforwm yw y dylid gadael Ysgolion Llŷn fel ag y maent ac ail edrych ar y sefyllfa eto yn y dyfodol os bydd angen. Nid yw aelodau'r Fforwm sydd wedi gwrando ar yr holl ddadleuon wedi eu darbwyllo:

- fod angen newid ym mhen Llŷn
- fod yr opsiynau er lles plant
- fod dadleuon y cyngor i gyd yn dal dŵr
- na fydd safle/ysgol yn cau

Ein gobaith yw y bydd y daflen wybodaeth yma yn dangos dadleuon y Fforwm yn glir ac yn eich cynorthwyo i ddeall a dadansoddi dadleuon a thaflen wybodaeth "Trefniadaeth Ysgolion Cynradd" y Cyngor.

YR OPSIYNAU (yn ôl y Sir)

CLYSTYRU:
Dwy ysgol yn rhannu pennaeth a fydd yn symud o un safle i'r llall.
Dau gorff llywodraethol.

FFEDRALEIDDIO:
3 neu 4 ysgol yn ymuno i greu un ysgol dros y safleoedd gwreiddiol – un pennaeth – un corff llywodraethu

ARDAL:
Cau nifer o ysgolion i greu un ysgol mewn adeilad newydd yn ganolog.

OPSIWN Y FFORWM

CADW'R STATUS QUO
Gadael i ysgolion mewn ardaloedd eraill yn Ngwynedd i glystyrru, ffedraleiddio neu greu ysgolion ardal os y dymunant.

Ailystyried sefyllfa ysgolion Llŷn mewn pum mlynedd yng ngoleuni'r sefyllfa bryd hynny a llwyddiant neu beidio'r ysgolion benderfynodd newid.

Adrefnu yn barod?

Mae'r Awdurdod yn awyddus i leihau llefydd gweigion a newid trefn ysgolion trwy Wynedd. Ydyn nhw'n cofio fod hyn wedi digwydd yn Llŷn yn barod? Tra bu rhai dalgylchoedd sydd bellach dan reolaeth Gwynedd heb eu cyffwrdd deugain mlynedd yn ôl mae adrefnu yn Llŷn wedi digwydd. Caewyd nifer o ysgolion gan gynnwys:

Rhiw, Llaniestyn, Dinas, Llangwnnadl a Bryncroes

Yma o Hyd?

NIFER DISGYBLION CYNRADD?

Nid yw'r Fforwm wedi gweld ffigyrau penadant sy'n dangos fod niferoedd disgyblion yn disgyn – beth bynnag am hyn ni fydd Clwstwr nag Ysgol Ffedral yn gwneud unrhyw wahaniaeth i lefydd gweigion.

Pam defnyddio 1996?

Mae'r Cyngor yn dadlau fod niferoedd disgyblion yn disgyn ac am ddisgyn i'r dyfodol. Defnyddiant 1996 fel llinyn mesur. Dyma (ar y dde) graff o ddata genedigaethau a ddefnyddwyd ganddynt i ddadlau'r achos. Mae niferoedd y plant yn disgyn yn ddramatig yn tydi…..





Ond beth am edrych ar y pictiwr llawn o 1974 i 2004….

Dyna pam 1996!

1996 oedd y flwyddyn gyda'r nifer mwyaf o enedigaethau ers chwarter canrif!

O edrych ar y data yn ei gyfanrwydd mae genedigaethau Gwynedd o leiaf yn debyg, os nad ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn y blynyddoedd olaf.

BETH SYDD O'I LE AR YSGOL FACH?

Pam fod angen newid i gyfundrefn sy'n llwyddo yn barod?

Mae Ysgolion Llŷn:

- **Yn cynnal safonau addysg uchel**
- **Yn sicrhau canlyniadau da**
- **Yn derbyn adroddiadau da iawn gan arolygwyr**
- **Yn meithrin awyrgylch saff a hapus i bob plentyn**
- **Yn datblygu disgyblion sydd ag anghenion arbennig**
- **Yn galon i gynnal ein cymunedau**
- **Yn cynnal y Gymraeg yn y pentrefi**
- **Yn cydweithio yn agos i ennyn cyd-chwarae a chyd-addysgu i gyfoedion.**

Ydi hi'n werth y risg o chwalu addysg Llŷn mewn arbrawf mor fawr a hyn?

YDI NEWIDIADAU I YSGOLION YN GWEITHIO?

Cafwyd adroddiad annibynol ar safonau mewn ysgolion wedi eu ffedraleiddio gan Grwp Hay. Edrychwyd ar 207 o ysgolion a ymunwyd. Dyma ran o'r adroddiad a fu yn y wasg:

Y GUARDIAN - 23/10/06
More than half of school mergers lead to a **drop in exam results**, according to new research.

The study examined both federations between schools and formal mergers where two schools become one. **Half** of primary schools experienced a **sustained decline in academic results** after a merger.

"Schools need resources and support to navigate the cultural as well as logistical challenges a merger presents. The number of schools faltering following a merger is **worryingly high**, and with more mergers planned, this could affect **thousands of students**."

REALITI FFEDRALEIDDIO

YSGOLION YN CAU

"Ni fydd ysgolion yn cau!" medd y swyddogion. Anghywir! Os dderbynir modelau'r sir bydd pob ysgol yn Llŷn yn cau ar Awst 31 y flwyddyn honno a bydd ysgolion newydd ffedral yn agor ar sawl safle ar Fedi 1af.

Cred Y Fforwm y bydd nifer o safleoedd (ysgolion presennol) yn gorfod cau i gynnal safleoedd eraill yr ysgol ffedral.

Mae'r Fforwm o'r farn y bydd o leiaf un safle o bob ysgol ffedral wedi cau o fewn 3 i 5 mlynedd.

ARIANNU:

O'r diwedd mae arweinydd y Cyngor wedi cyfaddef fod arbedion ariannol tu ôl i'r cynlluniau aildrefnu. Yn anffodus i'r Cyngor ni fydd ysgol ffedral yn arbed arian. Yn wir credir y bydd ysgol ffedral yn costio mwy i'w rhedeg **tra bydd pob safle ar agor.** Sut felly daw arbedion?

TEITHIO

Ni fydd ysgol ffedral yn ateb gofynion yr Awdurdod heb i'ch plant orfod teithio – unai teithio i safle ysgol arall yn y bore neu deithio mewn bws yn ystod y dydd. Ar brydiau bydd aelodau teulu o wahanol oedran yn cael eu haddysgu mewn gwahanol safleoedd.

YR IAITH

Ni fydd mewnfudwyr di-Gymraeg yn cael eu 'boddi' yn yr iaith hanner mor effeithiol mewn ysgol ffedral.

YR ATEB?

Beth am ddefnyddio'r adnoddau sy'n cael eu cyfeirio at aildrefnu ysgolion i ymladd dros blant Gwynedd yn Y Cynulliad.

Beth am fuddsoddi, fel yn y gorffennol, mewn ysgolion gwledig llwyddiannus.

Beth am dderbyn fod gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig oherwydd eu natur yn costio mwy nag mewn ardaloedd trefol.

Beth am gynllun awdurdod gyfan i adfywio cymunedau gwledig drwy adeiladu tai fforddadwy i deuluoedd a chreu gwaith i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau.

Beth am arbrofi gyda aildrefnu ysgolion mewn dalgylchoedd sy'n barod i newid a cadw'r status quo yn Llŷn.

FEL RHIANT – BETH FEDRA I EI WNEUD AM HYN?

Beth am adael i'r Awdurdod wybod eich teimladau? Cysylltwch gyda:

Dr Gwynne Jones
Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion
Swyddfa'r Sir, Caernarfon LL55 1SH

Gan eich Cynghorwyr Lleol mae'r gair olaf dros aildrefnu – cofiwch fod yna etholiad ym Mis Mai - Ar ba ochr i'r ffens mae'ch cynghorydd chi yn eistedd?

Aberdaron: William Gareth Roberts, Cwrt, Aberdaron 760478

Abersoch: Wyn Williams, Llwyn, Lôn Moslyn, Abersoch 712779

Botwnnog: Evan Griffith, Plas Gwyn, Botwnnog 730304

Boduan: Tomos Evan, Tyddyn Cae, Boduan 720278

Llanbedrog: W. Penri Jones, Wenallt, Llanbedrog 740737

Llanengan: John Gwilym Jones, Ceiriad,Cilan, 712169

Morfa Nefyn: Liz Saville Roberts, Tan Yr Onnen, Morfa Nefyn 701385

Nefyn: Meinir Jones, Giat Goch, Boduan 720604

Tudweiliog: Simon Glyn, Coed Anna, Botwnnog 730326

Mae'r Llywodraethwyr a'r Penaethiaid yn awyddus i glywed eich barn.
Cynelir cyfarfod i drafod trefniadaeth ysgolion ym mhob ysgol gynradd yn unigol yn y bythefnos nesaf – manylion i ddilyn
Hefyd cynhelir:

Cyfarfod Cyhoeddus

Trefniadaeth Ysgolion Llŷn
Neuadd Goffa Sarn
7pm Nos Fercher
Ionawr 17ed
Dewch yn llu i leisio barn!

Cwestiynau Ofynnir Yn Aml

Fydd yn rhaid i fy mhlentyn deithio o ysgol i ysgol?
Bydd! Mae'r Awdurdod am annog mwy o ryngweithio rhwng disgyblon o'r un oedran mewn ysgol ffedral, ni ellir gwneud hyn heb symud disgyblion o un ysgol i'r llall.

Pa mor aml fydd fy mhlentyn yn teithio?
Ar hyn o bryd mae disgyblion hyn yn teithio tua dwsin o weithiau y flwyddyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda ysgolion eraill. I gwrdd a deheuad yr Awdurdod i gynnyddu hyn disgwylir i ddisgyblion ysgol ffedral deithio o safle i safle o leiaf unwaith yr wythnos neu ragor. Bydd hyn ar ben teithiau i'r ganolfan hamdden a theithiau addysgol.

Faint fydd y teithio safle i safle yn ei gostio?
Dim i rieni gan y byddant yn deithiau 'addysgol'. Bydd y gost yn sylweddol i'r ysgol gan y bydd angen symyd disgyblion o un safle i wneud lle i ddisgyblion o'r safleoedd eraill. Bydd cost i'r ysgol o £8,000 a mwy i symud disgyblion rhyw ddwywaith neu dair yr wythnos.

A fydd yna arian ychwanegol yng nghyllideb Ysgol Ffedral i dalu am deithio?
Na!

A fydd fy mhlant yn cael eu haddysgu ar yr un safle?
Am gyfran o'r wythnos yn unig. Am gyfran arall disgwylir i ddisgyblion fynychu safle gyda chyfoedion, bydd teuluoedd felly yn cael eu haddysgu ar safleoedd gwahanol ar brydiau.

Pryd fydd y disgyblion yn teithio?
Mae'n debyg y bydd y plant yn teithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol. Os yw pob taith un ffordd yn cymryd chwarter awr (gan gynnwys amser gwisgo cotiau, mynd ar y bws a theithio) bydd teithio dwywaith yr wythnos yn unig yn mynd a 32 awr o amser addysgu'r disgyblion yn flynyddol, mae hyn yn gyfwerth a cholli tua 6.5 diwrnod o addysg . Byddai teithio dyddiol yn tynnu 16 diwrnod o'u haddysg y flwyddyn.

Fydd safonau yn codi wedi ffedraleiddio?
Yn ol arolwg a gyhoeddwyd yn y Guardian yn ddiweddar roedd safonau **wedi disgyn** am o leiaf dair mlynedd mewn hanner yr ysgolion cynradd sydd wedi ffedraleiddio yn Lloegr.
Mae'n bosibl oherwydd ansicrwydd swyddi na fydd moral staff ein hysgolion yn uchel yn y blynyddoedd yn arwain at ffedraleiddio. Gall hyn arwain at safonau is hefyd.

Dydi fy ysgol leol ddim yn gynaladwy meddai'r Awdurdod - fydd yr ysgol ffedral?
Bydd ysgol ffedral yn ddrytach i'w rhedeg na'r ysgolion llai am o leiaf 3 mlynedd - mae'n anodd gweld y bydd y sefyllfa ysgol ffederal yn fwy cynaladwy na'r ysgolion llai.

Sut fydd Ysgol Ffedral yn Gynaladwy i'r Dyfodol?
Bydd yn rhaid i lywodraethwyr ysgol ffedral wynebu **CAU** o leiaf un safle (ysgol) yn y ffederasiwn i ryddhau cyllid i gynnal y safleoedd eraill. Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod yn cynnwys cymal wrth sefydlu'r ysgol i gadw'r safleoedd am 3 neu hyd yn oed 5 mlynedd - does yr un safle yn saff wedyn.

Pam fod prinder penaethiaid?
Mae angen cymhwyster CPCP bellach i fod yn bennaeth. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o hyn ers diwedd y 90au ond nid oes cynllun tymor hir wedi ei sefydlu i feithrin ymgeiswyr.

Pam nad ydi athrawon eisiau bod yn bennaeth?
Mae nifer o athrawon wedi penderfynnu peidio ac ymgeisio i ddilyn y cwrs CPCP oherwydd nad oes sicrwydd y bydd swyddi pennaeth os bydd aildrefnu ysgolion.

Ydi niferoedd disgyblion yn disgyn?
O bosib. Nid oes data eglur am hyn. Mae'r awdurdod yn defnyddio 1996 fel cymhariaeth sy'n digwydd bod y flwyddyn gyda'r nifer mwyaf o enedigaethau yng Ngwynedd! Gan edrych yn ol mor bell a 1974 mae genedigaethau y blynyddoedd olaf gymaint neu'n uwch na'r cymedr ac mae'r tueddiad bellach ar i fyny.

Sut y bydd Ysgol Ffedral yn gwella problem llefydd gwag?
Ar y wyneb dydy hi ddim, yr un nifer o ddisgyblion fydd yn yr un nifer o ddosbarthiadau ym mhob safle'r ysgol ffedral ac yr oedd pan oeddynt ar wahan. Yr unig ffordd i golli llefydd gwag fydd i **GAU** o leiaf un safle.

Fydd yna rieni o fy ysgol bresennol ar lywodraethwyr yr Ysgol Ffedral?
Dim yn ganiataol. Ar hyn o bryd nid yw rheolaethau llywodraethwyr yn sicrhau hyn. Bydd angen i'r Cynulliad newid eu rheolaethau ac i Gwynedd eu haddasu cyn gwarantu cynrychiolaeth o bob 'safle'.